

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebost / email: [clerc.llansantffraed@btinternet.com](mailto:clerc.llansantffraed@btinternet.com)  
Tel: 01545 570323

**COFNODION HEB EU CADARNHAU**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, 1af o Ragfyr 2015 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: Cyng G Lewis  
Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, M James, L Lloyd, D Morgan, I Reed a B Tomlins.  
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards.  
Mr Denfer Morgan (Clerc).

**1. Ymddiheuriadau / Materion Personol / Datgelu Buddianau Personol.**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr J Hughes a M Lawton am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod, a CHYTUNWYD anfon dymuniadau gorau'r Cyngor iddyn' nhw am wellhâd buan yn dilyn llawdriniaeth diweddar.

Fe fu i'r Cynghorydd L Lloyd ddatgelu buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng Nghofnod 6c) isod (Cais Cynllunio A150928) ac ni chymerodd rhan pellach yn y drafodaeth na'r pleidleisio yn ei gylch.

**2. Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Tachwedd 2015.**

Cadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Tachwedd 2015 fel rhai cywir, yn amodol ar ddiwygio Cofnod 5 ii) i gofnodi bod y Cyngor wedi penodi'r Cynghorwyr Gerallt Lewis a Malcolm Lawton i fynd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Diffibrilydd er mwyn cael eglurhad o'r sefyllfa ariannol ac i adrodd nol i'r cyfarfod hwn.

**UNCONFIRMED MINUTES**

**Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 1<sup>st</sup> December 2015 at the Reading Room, Llanon.**

Present:

Chairman: Cllr G Lewis  
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, L Lloyd, D Morgan, I Reed and B Tomlins.  
County Councillor Dafydd Edwards.  
Mr Denfer Morgan (Clerc).

**1. Apologies / Personal Matters / Disclosure of Personal Interests.**

Councillors J Hughes and M Lawton apologised for their inability to attend the meeting, and it was AGREED to send the Council's best wishes for a speedy recovery to both Members following recent operations.

Councillor L Lloyd disclosed a personal and prejudicial interest in the matter referred to in Minute 6c) below (Application A150928) and took no further part in the discussion or voting thereon.

**2. Minutes of the Meeting held on 3<sup>rd</sup> November 2015.**

The Minutes of the Meeting of the Council held on 3<sup>rd</sup> November 2015 were confirmed as being a correct record, subject to amending Minute 5 ii) to record that the Council had appointed Councillors Gerallt Lewis and Malcolm Lawton to attend the next meeting of the Defibrillator Committee in order to clarify the financial situation and to report back to this meeting.

### 3. Materion yn codi o'r Cofnodion.

#### 3.1 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troedger Llwynteg

CYTUNWYD gosod pyst yn y man yma er mwyn ymestyn y clawdd a gorchuddio'r stwmp.

#### 3.2 Llwybr yn arwain at y Maes Chwarae

Dywedodd y Cynghorydd Lodwick Lloyd nad oedd y 'scalpings' wedi'u taenu ar hyd y llwybr hyd yn hyn.

#### 3.3 Banciau Ailgylchu Gwydr

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorwyr H Hayfield a G Lewis i fynd gyda'r Clerc i gwrdd â Swyddog o'r Cyngor Sir ar 10fed Rhagfyr.

#### 3.4 CYTUNWYD gofyn i berchnogion ystad Graig Ddu i dorri gwrych y ffin.

#### 3.5 Dywedodd y Clerc fod yna wahoddiad wedi mynd i'r asiantaeth cefnffyrdd a'r gwasanaethau brys i gyfarfod mis Ionawr i drafod y damwain ffordd diweddar a disgwylwyd eu hymateb.

#### 3.6 Cyfleusterau Cyhoeddus

Rhoddwyd ystyriaeth i lythyr dyddiedig 26 Tachwedd oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dafydd Edwards at fanylion y costau blynyddol o gynnal y toiledau.

Cynghorwyd y Cynghorydd Dennis Morgan i gysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch y person posib a oedd â diddordeb i lanhau'r toiledau.

**PENDERFYNWYD** trafod y mater ymhellach yng nghyfarfod mis Ionawr.

#### 3.7 Y Dorch Pabi

Dywedodd y Cynghorydd Tomlins, yn dilyn Gwasanaeth Sul y Cofio, fod y dorch gydag ef a oedd angen ei roi nol yn y blwch a oedd ym meddiant y Cynghorydd Hayfield ar gyfer ei gadw'n ddiogel.

### 3. Matters arising from the Minutes.

#### 3.1 Tree Stump on Footpath near Llwynteg

It was AGREED to place posts at this point to extend the hedge to cover the stump.

#### 3.2 Track leading to the Playing Field

Councillor Lodwick Lloyd stated that the scalpings had not yet been spread along the track.

#### 3.3 Glass Recycling Banks

It was **RESOLVED** to appoint Councillors H Hayfield and G Lewis to accompany the Clerk at the meeting with the County Council Officer on 10<sup>th</sup> December.

#### 3.4 It was AGREED to request the owners of the Graig Ddu estate to cut the boundary hedge.

#### 3.5 The Clerk stated that an invitation had been sent to the trunk road agency and the emergency services to attend the January meeting to discuss the recent road accident and that their reply was awaited.

#### 3.6 Public Conveniences

Consideration was given to a letter dated 26 November from Ceredigion County Council.

Councillor Dafydd Edwards referred to the details of the annual costs for maintaining the toilets.

Councillor Dennis Morgan was advised to contact the County Council in respect of a possible person who was interested in applying for the job of cleaning the toilets.

It was **RESOLVED** to discuss the matter further at the January meeting.

#### 3.7 Poppy Wreath

Councillor Tomlins stated that, following the Remembrance Service, he had the wreath which needed to be placed in the box in Councillor Hayfield's possession for future safekeeping.

### 3.8 Trasio llwybrau troed

Dywedodd y Clerc ei fod wedi gofyn i Ground Tech am yr anfoneb parthed yr ail doriad blynyddol ond nad oedd wedi derbyn ateb ac y byddai'n cysylltu â nhw eto.

### 3.9 Y Pwyllgor Deffibrilydd

Adroddodd y Cynghorydd Lewis ei fod ef a'r Cynghorydd Lawton wedi mynd i'r cyfarfod diwethaf ac wedi cael gwybod fod y Pwyllgor erbyn hyn wedi agor cyfrif banc ac ni fyddent angen rhagor o gymorth gan y Cyngor hwn. CYTUNWYD gofn i'r Clerc gysylltu â'r Cynghorydd Lawton parthed y swm o arian a oedd yn weddill ac i wneud adroddiad pellach yng nghyfarfod Ionawr.

## 4. Eiddo

### (a) Adroddiad yr Arolygiad

Dywedodd y Cynghorydd L Lloyd mai ef oedd wedi cynnal arolwg yn ystod y mis blaenorol ac nid oedd unrhyw beth i ddwyn i sylw'r Cyngor.

### (b) Cyfarpar Chawrae

Cyfeiriodd y Clerc at y pris a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion am wneud y gwaith a argymhellir yn Adroddiad Arolwg Wicksteed yn rhatach na'r un a gynigiwyd gan Wicksteed. Prun bynnag, ymddengys nad oedd y Cyngor wedi cynnig pris i baentio'r uned amlchwarae.

**PENDERFYNWYD** aros am y pris o baentio'r uned ac i ystyried y mater ymhellach yng nghyfarfod mis Ionawr.

### (c) Diweddariad ar y Gwaith Contract

1 Adeiladu sied storio – nodwyd fod yr adeiladu yn mynd yn ei flaen. Roedd y llawr i'w baentio, silffoedd l'w rhoi yn eu lle a chyflenwad trydan l'w gysylltu.

#### 2 Ailorchuddio'r cyrtiau tenis

Nodwyd bod y posibilrwydd o ddefnyddio cyllid UE er mwyn darparu gorchudd aml ddefnydd ar y cyrtiau tenis yn cael ei ddilys i fyny ac y byddai adroddiad

**3.8 Trashing of footpaths** The Clerk stated that he had requested Ground Tech for the invoice in respect of the 2<sup>nd</sup> annual cut but had not received a reply and would contact them again.

### 3.9 Defibrillator Committee

Councillor Lewis reported that he and Councillor Lawton had attended the last meeting and had been informed that the Committee had now opened a bank account and would not require further assistance from this Council. It was AGREED that the Clerk liaise with Councillor Lawton with regard to the amount of outstanding monies and that a further report be made to the January meeting.

## 4. Property

### (a) Inspection Report

Councillor L Lloyd stated that he had undertaken last month's inspection and that there was nothing to report to the Council.

### (b) Playground Equipment

The Clerk confirmed that the price received from Ceredigion County Council for undertaking the work being recommended in the Inspection Report was cheaper than that produced by Wicksteed. However, it appeared that the Council had not offered a price to paint the multiplay unit.

It was **RESOLVED** to await the price for painting the unit and to consider the matter further at the January meeting.

### (c) Up-date on the Contract Work

1 Construction of a storage shed – it was noted that the construction was proceeding. The floor was to be painting, shelving installed and an electricity supply connected.

#### 2 Resurfacing of the tennis courts

It was noted that the possibility of utilising EU funding in order to provide a multi-use surface on the tennis courts was being investigated and a further report would be

pellach yn cael ei wneud i gyfarfod mis Ionawr. Cytunodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ddilyn i fyny gyda'r Cyngor Sir y posibilrwydd o ohirio'r grant cymunedol tan y flwyddyn nesaf er mwyn caniatau'r Cyngor i fyd ar ôl y cyllido gwahanol hwn.

## 5. Cyllid

**PENDERFYNWYD** cytuno ymuno gyda chynghorau Aberaeron a Chiliau Aeron ac ymaelodi gyda'r Society of Local Council Clerks a rhannu'r ffi o £131.

## 6. Gohebiaeth ac Ymgynghoriadau

- (a) Cais Cynllunio A150896 – Tir gyferbyn â Whitemead, Llanon. Amrywiad o Amod 2 cais cynllunio A130687 (draeniau budr).

Nodi bod sylwadau'r Cyngor wedi'u hanfon at yr Awdurdod Cynllunio Lleol – dim gwrthwynebiad.

- (b) Cais Cynllunio A150907 – Tir gyferbyn â to Carregwen, Nebo, Llanon. Codi tŷ fforddiadwy.

Dim gwrthwynebiad.

- (c) Cais Cynllunio A150928 - Maesfron, Porthmawr, Llanrhystud. Uwchraddio telegyfathrebu arfaethedig a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiad.

- (d) Cytunwyd gohirio'r ystyriaeth o'r gwahoddiad i fynd i annerch Cangen Sefydliad y Merched gan y deallir fod dyddiad y cyfarfod wedi newid.

## 7. Unrhyw Fater Arall

- 7.1 **Taflunydd** Cyfeiriodd y Cynghorydd Tomlins at y penderfyniad blaenorol i edrych i fewn i'r posibilrwydd o bwrcasu taflunydd ar gyfer cynorthwyo gydag ystyried ceisiadau cynllunio mewn cyfarfodydd a chytunwyd gofyn i'r Cynghorydd Hayfield cael gafael ar

made at the January meeting. Councillor Dafydd Edwards agreed to pursue the possibility of delaying the County Council community grant until the following year to allow the Council to pursue this alternative funding.

## 5. Finance

It was **RESOLVED** to agree to join with the Aberaeron and Ciliau Aeron Councils and affiliate with the Society of Local Council Clerks and to share the £131 fee.

## 6. Correspondence and Consultation Matters

- (a) Planning Application A150896 – Land adjacent to Whitemead, Llanon. Variation of Condition 2 of planning permission A130687 (foul drainage).

To note that the Council's comments had been forwarded to the Local Planning Authority – No objection.

- (b) Planning Application A150907 - Land adjacent to Carregwen, Nebo, Llanon. Erection of an affordable dwelling.

No objection.

- (c) Planning Application A150928 - Maesfron, Porthmawr, Llanrhystud. Proposed telecommunications upgrade and associated works.

No objection.

- (d) It was agreed to defer consideration of the invitation to give a presentation to the W.I. Branch as it was understood that the date of the meeting had been changed.

## 7. Any Other Business

- 7.1 **Projector** Councillor Tomlins referred to the previous decision to investigate the purchase of a projector for assisting with the consideration of planning applications at meetings and it was agreed to request Councillor Hayfield to obtain details of a possible suitable projector and to discuss

- fanylion o daflunydd addas posibl ac i drafod y mater yng nghyfarfod Ionawr.
- 7.2** Cytunwyd trafod yng nghyfarfod Ionawr y posibilrwydd o gynnal cinio yn y flwyddyn newydd.
- 7.3** Dywedodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards mai diffyg technegol oedd y rheswm am y problem gyda goleuadau'r stryd yng Nghylch Peris ac roedd wedi'i ddatrys erbyn hyn.
- 8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 5 Ionawr 2016**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 y.h.

the matter at the January meeting.

- 7.2** It was agreed to discuss at the January meeting the possibility of holding a dinner in the new year.
- 7.3** County Councillor Dafydd Edwards stated that the problem with the street lights at Cylch Peris had been due to a technical fault which had now been rectified.
- 8. Date of Next Meeting – 5 January 2016**

The meeting concluded at 9.30 p.m.